OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 32 (Cy. 13)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *12 Ionawr 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *18 Ionawr 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *8 Chwefror 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 43(4B)(b), 44(9)(b), 143(1) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Chwefror 2016 ond mae'n cael effaith o 1 Ebrill 2016 ymlaen.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015

**2.** Yn erthygl 3(1) o Orchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015, yn lle "31 Mawrth 2016" rhodder "31 Mawrth 2017".

(**1**) 1988 p. 41. Mewnosodwyd is-adran (4B) o adran 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 61(1) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26). Mewnosodwyd is-adran (9)(b) o adran 44 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 61(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

(**2**) Breiniwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Edwina Hart*
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

12 Ionawr 2016

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/229 (Cy. 11)) ("Gorchymyn 2015"). Mae Gorchymyn 2015 yn darparu ar gyfer cynllun rhyddhad ardrethi a chynllun rhyddhad ardrethi dros dro sydd i redeg o 1 Ebrill 2015 hyd 31 Mawrth 2016, ac nid yw ond yn gymwys i gategorïau penodol o hereditament.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2015 drwy estyn y cyfnod amser y mae'r cynllun rhyddhad ardrethi dros dro yn gymwys hyd 31 Mawrth 2017.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.